AR GYFER BUSNES
CAMBRIA
FOR BUSINESS

WWW.CAMBRIA.AC.UK/BUSNES



Prentisiaethau
Apprenticeships

# CANLLAW

## I GYFLOGWYR AM BRENTISIAETHU

### CYMDEITHAS TECHNEGWYR CYFRIFEG (AAT)

# CROESO

**Cynlluniwyd y cymwysterau hyn ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd labordy ac sy'n helpu gyda chynnal profion, ymchwil ac archwiliadau mewn amrywiaeth o ddiwydiannau neu amgylcheddau addysgol.**

Mae timau asesu Cambria ar gyfer Busnes yn gweithio'n agos gyda chwmnïau rheolwyr, adrannau ac unigolion i deilwra asesiadau i gyd-fynd â gwaith penodol a swydd y gweithiwr.

## GOFYNION LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER ARIANNU PRENTISIAETH

Cyn cofrestru ar gyfer prentisiaeth, cynhelir ymholiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer eich cwmni i gadarnhau fod polisïau statudol Iechyd a Diogelwch ar waith.

Byddwn yn monitro Iechyd a Diogelwch eich prentis yn rheolaidd trwy gydol y rhaglen hyfforddi. Bydd yr asesydd yn y gwaith yn adolygu'r hyfforddiant a'r lleoliad gwaith bob 61 diwrnod o leiaf. I gyfuno'r adolygiad gyda'r NVQ yn y gwaith, mae hyn yn aml yn cael ei gynnal yn fisol. Bydd yr adolygiad hwn yn rhoi cyfle i gyflogwyr gynnig sylwadau a bod yn rhan o hyfforddiant eich dysgwr a gwirio ei gynnydd.

## GOSOD TARGEDAU NVQ/QCF

Yn ystod pob adolygiad prentis, bydd yr asesydd yn y gwaith yn cadarnhau targedau a gytunwyd arnynt gyda'r prentis ar gyfer beth y dylid ei gwblhau erbyn eu hymweliad nesaf. Bydd hefyd yn rhoi amser i'r asesydd i adolygu a rhoi adborth ar unrhyw waith asesu sydd wedi cael ei gyflwyno a chynllunio rhagor o asesiadau ar gyfer y dyfodol.



## PA GYMWYSTERAU YN Y GWAITH FYDD YN ADDAS AR GYFER FY MHRENTIS?

Byddwn yn holi ynghylch natur y brentisiaeth ac os oes angen, byddwn yn ymweld â'r safle er mwyn deall y gwaith y mae'r prentis yn ei wneud.

Dylid dewis cymwysterau a llwybrau a fydd yn addas i ofynion y brentisiaeth ac yn adlewyrchu gwaith y dysgwr yn gywir, fel ei fod yn gallu dangos ei gymhwysedd.

## A FYDD FY MHRENTIS YN GALLU CAEL RHAGOR O HYFFORDDIANT YN YSTOD EI BRENTISTH?

Wrth gwrs, ond rydym yn cynghori y dylai'r hyfforddiant fod yn gymesur, fel bod y prentis yn gallu cwblhau gofynion y brentisiaeth bresennol.

## BETH YW PRENTIS DA?

Unigolyn llawn cymhelliant, brwdfrydig, sy'n gweithio'n galed, ac yn barod i ddysgu.

## CYMORTH GAN Y DARPARWR HYFFORDDIANT

Bydd prentisiaid yn cael cymorth parhaus gan staff y coleg, gydag arweiniad un i un penodol a chymorth gan eu Hasesydd yn y Gwaith.

## PA GYMORTH SYDD ANGEN I MI EI ROI I FY MHRENTIS?

Mae angen i brentisiaid gael anogaeth a chyfranogiad gan eu cyflogwr drwy gydol y broses hyorddi ac adolygu. Bydd hyn yn sicrhau bod fod y prentis yn cael y cyfle i weithio mewn meysydd gwahanol gyda chydweithwyr gwahanol i ehangu ei brofiad dysgu ymhellach. Bydd y berthynas hon gyda phob parti yn cynorthwyo'r prentis mewn llwybr gyrfa strwythuredig.

Mae'n bwysig bod eich prentis yn cael amser a chymorth i fodloni terfynau amser yr hyorddiant, ei fod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phenderfyniadau sy'n eeithio ar ei waith a'i hyorddiant, ac yn cael ei annog yn gyredinol i gymryd rhan ym mhob agwedd ar ei fywyd gwaith. Mae hefyd yn bwysig fod cyflogwyr yn rhoi cyfle i'r prentis wneud mathau priodol o dasgau yn y gweithle, fel y gall unigolyn ddatblygu ei sgiliau a bodloni'r gofynion cymhwyster cymhwysedd yn y gweithle.

# PA GYRSIAU RYDYM YN EU CYNNIG MEWN CYFRIFEG YN Y GWAITH?

**Prentisiaethau Sylfaen Lefel 2**

- Tystysgrif mewn Cyfrifeg

**Prentisiaethau Lefel 3**

- Tystysgrif mewn Cyfrifeg

**Prentisiaethau Lefel 4**

- Diploma Proffesiynol mewn Cyfrifeg

**Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n gweld cwrs sy'n addas i ateb anghenion eich sefydliad yma - efallai gallwn addasu'r hyfforddiant i gyd-fynd â'ch gofynion penodol.**

**Mae pob prentisiaeth yn cynnwys:**

- Asesiadau Cychwynnol a Diagnostig
- Hawliau Cyflogaeth a Chyfrifoldebau

**Sgiliau Hanfodol mewn:**

- Cymhwyso Rhif
- Cyfathrebu
- Llythrennedd Digidol



**WWW.CAMBRIA.AC.UK/BUSNES**
**0300 30 30 006**